**02**

## Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## P-04-346: Deiseb ar ddarpariaeth addysg blynyddoedd cynnar

## Sylwadau gan Mudiad Meithrin –

- Nodwn nad oes 15 awr yr wythnos o ofal plant di-dâl ar gael yng Nghymru i blant rhwng 3 a 4 oed. Mae gan deuluoedd sy'n byw yn ardaloedd Dechrau'n Deg yr hawl i ofal plant rhan amser ar gyfer plant o 2 - 3 oed, ond nid yw'r gwasanaeth hwn ar gael i blant sy'n byw tu allan i ffiniau ardaloedd Dechrau'n Deg, nac ychwaith i blant rhwng 3 a 4 oed.

- Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar i blant rhwng 3 a 4 oed. Darperir yr addysg gynnar hon mewn dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion yn ogystal â lleoliadau yn y sector nas gynhelir - yn ddibynnol ar bolisïau pob Awdurdod Lleol. Nodwn fodd bynnag nad gofal plant yw hyn i alluogi rhieni i weithio neu fynychu hyfforddiant, yn hytrach y nod yw cynnig cyfleoedd i blant ifainc elwa o addysg blynyddoedd cynnar.

- Cytunwn fodd bynnag y gall fod yn anodd iawn i rieni sy'n gweithio codi eu plant o'r ddarpariaeth addysg 3 oed ar ddiwedd y sesiwn, a'u cludo i fan arall ar gyfer gofal cofleidiol am weddill y dydd. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos rhieni sydd a'u plant yn mynychu addysg feithrin cyfrwng Cymraeg yn y de ddwyrain a'r gogledd ddwyrain - lle gall fod yr ysgol Gymraeg agosaf rai milltiroedd o gartref y plentyn a gwaith y rhiant.

- Mae hygyrchedd yr addysg blynyddoedd cynnar agosaf i gartref y teulu yn gallu bod yn ffactor sylweddol iawn ym mhenderfyniad rhieni ynglŷn â pha ddarpariaeth a ddewisant. Yn aml, mae'r pellter teithio i'r ysgol Gymraeg agosaf yn golygu nad oes cyfle cyfartal i rieni sy'n dymuno addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i'w plant. Mewn nifer o siroedd ni chyllidir cludiant i'r ysgol i blant 3 oed, a chaiff hyn ddylanwad negyddol ar ddewisiadau rhieni, yn arbennig felly ar deuluoedd sy'n dioddef o ddifreintedd. Pwyswn ar y Llywodraeth i sicrhau bod darpariaeth addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ar gael yn lleol i bob teulu, ac mewn lleoliad sydd yr un mor hygyrch â'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg. Dim ond trwy gyflawni hyn y gellir sicrhau tegwch a chyfle cyfartal i bob plentyn a'i deulu.

- Cytunwn fod darparu gofal cofleidiol ar safle neu yn agos at safle'r addysg blynyddoedd cynnar, boed yn y sector a gynhelir neu yn y sector wirfoddol, yn fodd i hwyluso trosglwyddiad plant o un ddarpariaeth i'r llall, a thrwy hynny arbed i rieni sy'n gweithio orfod codi eu plant ganol dydd. Fel mae'r ddeiseb yn nodi, mae enghreifftiau o hyn yn digwydd, ond nid yw'r cyfleoedd i rieni fanteisio ar y math hwn o ddarpariaeth yn gyson ar draws Cymru. Dylai

Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant yr Awdurdodau Lleol fod yn adnabod a thynnu sylw at unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth sy'n bodoli yn lleol.. Awgrymwn y dylid casglu enghreifftiau o arfer dda yng nghyd-destun gofal cofleidiol er mwyn gallu eu rhaeadru i Awdurdodau Lleol ac ardaloedd lle nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael i rieni.

- Mae rhai meithrinfeydd dydd wedi eu cofrestru gyda'r Awdurdod Lleol fel darparwyr addysg plant 3 oed. Yn y lleoliadau hyn, gall plant 3 oed gael eu cyllido am 10 awr o addysg feithrin, a gall y rhieni wedyn dalu am yr oriau ychwanegol y mae'r plant yn eu mynychu. Mae'r trefniant hwn yn hwylus iawn i rieni sy'n gweithio, ac o bosib dylid edrych ar ffyrdd o annog mwy o feithrinfeydd i gofrestru fel darparwyr addysg plant 3 oed , ac ymgymryd ag arolygon Estyn i'w galluogi i gyflawni hyn. Dylid nodi fodd bynnag, mai ychydig yw'r cyfleoedd sydd ar gael i rieni fanteisio ar feithrinfa ddydd sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. O'r herwydd yn amlach na pheidio byddai rhieni yn gorfod defnyddio darpariaeth Saesneg yn hytrach na'u dewis o ofal dydd cyfrwng Cymraeg. Dylid edrych am gronfeydd cyllidol fyddai'n galluogi darparwyr gofal plant sesiynol cyfrwng Cymraeg i ehangu eu gwasanaeth i ofal dydd llawn.

- Dymunwn bwysleisio fod rhieni plant sydd ag anghenion ychwanegol yn aml yn wynebu hyd yn oed mwy o anawsterau wrth geisio mynediad i addysg plant 3 oed neu ofal cofleidiol/ dydd llawn ar gyfer eu plant. Gwelwyd enghreifftiau lu o ddiffyg cyfle cyfartal i blant sydd angen cymorth ychwanegol i fedru manteisio ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar. Mewn lleoliadau gofal dydd, os yw'r plentyn angen cefnogaeth cymhorthydd un- i-un, gall fod y rhieni yn gorfod talu yn ychwanegol am hyn, oni bai fod y Cynllun Cyfeirio lleol yn gallu cyfrannu yn rhannol tuag at y gost.. Mae sefyllfaoedd fel hyn yn aml yn golygu na all rhieni plant ag anghenion ychwanegol ymgymryd â gwaith neu hyfforddiant yn yr un modd ag y gall rhieni eraill. Mae hyn yn creu sefyllfa o anghyfiawnder a gwahaniaethu ar sail anabledd.